**Adran 25 Adolygiad o Ffiniau: Abaty Hendy-gwyn ar Daf, Hendy-gwyn ar Daf**

**Yr ymatebion a ddaeth i law ynghylch y cynigion drafft**

| Y Cynghorydd/AS/AC/Cyngor Cymuned/Aelod o'r Cyhoedd: | Dyddiad Derbyn: | Sylwadau: | Sylwadau'r Prif Weithredwr: |
|---|---|---|---|
| **Y Cynghorydd Sue Allan** | **13/01/2025** | **Yr arsylwadau a ddarparwyd**<br>- Diwygio ffin y Ward er mwyn cynnwys y rhan fwyaf o adfeilion yr Abaty yn Ward Hendy-gwyn ar Daf Cyngor Sir Caerfyrddin heb effeithio ar nifer yr aelwydydd.<br>- Manylion y map wedi'u diwygio ac esboniad wedi'i ddarparu | Er nad yw'r map arfaethedig yn effeithio ar yr eiddo gyferbyn â'r safle, mae'n cynnwys llawer iawn o dir ymhell y tu hwnt i'r hyn sy'n weddill o Abaty Hendy-gwyn ar Daf. Mae Atodiad B yn nodi'r ffin newydd arfaethedig. |
| **Cyngor Tref Hendy-gwyn ar Daf** | **21/01/2025** | **Yr arsylwadau a ddarparwyd**<br>- Mae'n nodi bod ffiniau wardiau wedi dilyn cyrsiau dŵr neu afonydd lleol yn draddodiadol. Mae'r Cyngor yn gofyn am eglurhad ynghylch a fyddai eiddo ger tiroedd yr Abaty yn cael eu cynnwys yn y newid arfaethedig.<br>- Mae angen eglurhad pellach ynghylch cynnal a chadw tiroedd yr Abaty, oherwydd heb anheddau ychwanegol sy'n cyfrannu at braesept lleol, byddai'r baich yn disgyn yn anghymesur ar y trigolion presennol, sy'n bryder i'r Cyngor | Ni fydd yr eiddo gerllaw, fel y nodir yn atodiad B, yn rhan o'r newid arfaethedig<br><br>Gofynnir am eglurder ynghylch y baich ariannol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Cymuned Llanboidy** | **04/02/2025** | **Yr arsylwadau a ddarparwyd**<br><br>- Cytunodd aelodau'r cyngor ei bod yn dderbyniol mewn egwyddor fod caeau Abaty Hendy-gwyn ar Daf yn unig yn cael eu trosglwyddo o Gyngor Cymuned Llanboidy i Gyngor Tref Hendy-gwyn ar Daf, ond na ddylai hyn gynnwys trosglwyddo unrhyw eiddo a feddiannir nac unrhyw diroedd y tu hwnt i'r ardal gyfyngedig a gynhwysir yn y cynnig. Mae Llanboidy yn Gyngor Cymuned gwledig bach sydd heb fawr o arian i gynnal ei gyfrifoldebau ac mae'r aelodau'n pryderu na ddylid colli praesept nac etholwyr fel rhan o'r broses hon. | Gan fod yr ymateb wedi dod i law ar ôl y dyddiad cau, sef 27/01/25, ni ddylid cynnwys yr ymateb hwn, yn fy marn i. Ond mae'r map arfaethedig, yn atodiad B, yn ystyried eu sylwadau. Dylid hepgor hyn o'r ymateb a gofyn i'r Cyngor Cymuned ailgyflwyno yn Ymgynghoriad Cyhoeddus 2 sy'n agor ar 14/04/2025. |